

# **Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)**

Practis Deintyddol Bethcar / Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 30 Ebrill 2018

Dyddiad cyhoeddi: 31 Gorffennaf  
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	18
4.	Beth nesaf? .....	21
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	22
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	23
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	24
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	25

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Pwyslais ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfatebol

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

**Darparu sicrwydd:**

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Bethcar, 97 Stryd Bethcar, Glynebwy, NP23 6BB, sydd o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 30 Ebrill 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir gwybodaeth bellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Bethcar yn cydymffurfio â'r safonau angenrheidiol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y cleifion yn cael eu trin â pharch, bod gan y practis brosesau priodol ar waith i sicrhau bod offer yn ddiogel i'w defnyddio, a bod gan y practis amrediad o bolisiâu a gweithdrefnau i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn hapus iawn â'u gofal a'u triniaeth
- Ar y cyfan, roedd cofnodion cleifion yn gynhwysfawr ac wedi'u dogfennu'n dda
- Dangosodd y staff broses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd dogfennaeth a gwybodaeth ar gael yn dangos bod y cyfarpar pelydr-X a diheintio yn cael ei ddefnyddio gyda'r nod o hybu diogelwch y staff a'r cleifion
- Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y cânt eu cefnogi a bod ganddynt gyfleoedd hyfforddi da

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarau rhai darnau o wybodaeth i gleifion, gan gynnwys y datganiad o ddiben a thaflen wybodaeth i gleifion
- Cynnal archwiliadau mwy rheolaidd o'r trefniadau rheoli heintiau
- Hyfforddiant ar gyfer rhai aelodau o staff clinigol mewn ymbelydredd ïoneiddio

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Practis Deintyddol Bethcar yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Glynebwy yn ne Cymru. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys chwe deintydd, dau hylenydd, un therapydd, wyth nyrs ddeintyddol (un o'r rheini o dan hyfforddiant), dau aelod o staff derbynfa a rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol cyffredinol i gleifion y GIG a chleifion preifat.

Gall un deintydd gynnig gwasanaeth tawelu.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan holl dîm y practis. Roedd y cleifion a wnaeth sylwadau yn dweud eu bod yn hapus iawn â'r gwasanaeth a gynigiwyd gan y practis. Canfuom fod y practis yn darparu gofal a thriniaeth mewn modd a oedd yn canolbwyntio ar y claf.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC ymhlith cleifion i gasglu eu sylwadau ynghylch y gwasanaethau deintyddol a ddarparwyd. Cwblhawyd cyfanswm o 37. Roedd mwyafrif yr holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn glaf yn y practis ers dros ddwy flynedd. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*"Mae fy mhreactis yn berffaith. Er mai practis y GIG ydyw, mae'r safon yr un fath â phreactis preifat."*

*"Rwyf i a'm teulu wastad wedi cael gofal ardderchog yn y practis. Rydym wastad yn cael ein hysbysu am unrhyw ofal/triniaeth sydd ei hangen aniom a chaiff hyn ei egluro i ni mewn modd hawdd ei ddeall. Mae croeso cynnes i'w gael yn y practis bob amser ac mae'n ymddangos i fod yn drefnus ac yn broffesiynol."*

*"Tîm gwych o'r dderbynfa i'r tîm deintyddol. Wastad yn gyfeillgar ac yn barod eu cymorth."*

*"Gofal a gwasanaeth ardderchog."*

*"Mae gennyf ffobia rhag mynd at y deintydd, ond mae staff y practis bob amser yn gwneud imi deimlo'n gyfforddus a digynnwrf."*

## Cadw'n iach

O fewn y practis, gwelsom fod amrediad o wybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion i helpu i hyrwyddo'r angen iddynt ofalu am eu hiechyd a hylendid ceg



eu hunain. Gwelsom fod sgriniau teledu ar gael yn ardaloedd aros y cleifion a oedd hefyd yn dangos gwybodaeth a chyngor ar hybu iechyd.

Yn ddieithriad, dywedodd pob claf a lenwodd yr holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad ag ef am sut i gadw ei geg a'i ddannedd yn lân.

## **Gofal ag urddas**

Arsylwom staff yn siarad â chleifion mewn modd parchus a phroffesiynol. Roedd y staff yn ymddangos i fod yn dîm cyfeillgar a gwelsom ryngweithio clên a chwrtais gyda chleifion. Yn ddieithriad, roedd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo y cawsant eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Cadarnhaodd y practis fod cleifion yn gallu siarad â'r tîm deintyddol yn breifat oddi wrth y cleifion eraill, er mwyn helpu i gadw eu preifatrwydd a'u hurddas.

## **Gwybodaeth i gleifion**

Roedd y practis yn darparu amrediad o driniaethau deintyddol y GIG a thriniaethau deintyddol preifat. Roedd gwybodaeth ynghylch costau triniaethau'r GIG i'w gweld yn amlwg yn ardal y dderbynfa, gan olygu bod cleifion yn cael y wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth GIG ei chostio. Dywedwyd wrthym y câi costau triniaethau deintyddol preifat eu trafod â chleifion a bod gwybodaeth ar gael iddynt gan y deintydd ar gais. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod prisiau triniaethau deintyddol preifat yn cael eu dangos i gleifion eu gweld.

Dywedodd y rhan fwyaf helaeth o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur y gwneid yn siŵr eu bod yn deall beth yw cost y driniaeth cyn cael y driniaeth honno, a'u bod yn deall sut y cyfrifid cost eu triniaeth. Dywedodd pob un namyn un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn teimlo eu bod yn cyfrannu cymaint ag yr hoffent at benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth, gan ddweud eu bod yn cael gwybodaeth glir ynghylch yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

### **Yr hyn y mae angen ei wella**

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddangos y prisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat.

## **Cyfathrebu'n effeithiol**

Dywedodd pob un namyn un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur iddynt allu siarad â'r staff yn eu hiaith ddewisol.

## **Gofal amserol**

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion yn rheolaidd am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i gleifion pe bai angen iddynt gael triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau gwaith. Roedd y rhif ffôn yn cael ei ddangos y tu allan i'r practis, o fewn taflen wybodaeth i gleifion, ar y wefan, ac yn neges peiriant ateb y ffôn. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion cleifion a chanfuom fod cofnodion manwl o gynllunio triniaethau a'r opsiynau a nodwyd ar gyfer pob claf. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn gallu gwneud penderfyniad doeth ynghylch eu darpar driniaeth.

Cadarnhaodd y mwyafrif helaeth o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y deintydd yn gofyn am eu hanes meddygol cyn cynnal unrhyw driniaeth.

### **Hawliau pobl**

Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisi amrywiaeth a chydaddoldeb penodol ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb yn cael yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Roedd angen defnyddio grisiau i fynd i mewn i'r practis, gan olygu nad oedd modd i gleifion â thrafferthion symud neu gleifion mewn cadair olwyn ddod i'r lleoliad. Roedd taflen wybodaeth y practis yn gwneud hyn yn glir i gleifion a oedd, o bosibl, am ddefnyddio'r gwasanaeth.

### **Gwranddo a dysgu o adborth**

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd y wybodaeth i gleifion ynghylch sut i godi pryder (neu gŵyn) yn cael ei dangos i'r cleifion ei gweld. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn gwybod sut i godi pryder neu wneud cwyn am y gwasanaeth. Rhaid i'r rheolwr

cofrestedig ddiweddarau'r weithdrefn gwyno i sicrhau bod ynndi fanylion cyswllt AGIC. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud y newid hwn.

Er mai nifer fach iawn o gwynion a dderbyniodd y gwasanaeth, canfuom fod proses briodol i wneud cofnod a mynd i'r afael â chwynion llafar a chwynion ysgrifenedig.

Canfuom fod gan y gwasanaeth broses ar waith i gasglu adborth gan gleifion ynghylch y gwasanaethau a'r gofal a dderbyniwyd drwy holiaduron cleifion. Gwelsom fod y practis yn ystyried y wybodaeth a gafwyd a rhoddwyd adborth i'r cleifion ynghylch canlyniad yr holiaduron, a oedd yn cael eu harddangos ar y sgriniau teledu yn y manau aros. Roedd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur yn cadarnhau y gofynnir am eu barn ar y practis deintyddol.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y weithdrefn gwyno yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn ymdrechu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Yn ôl pob golwg, roedd adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan.

Ar y cyfan, roedd manylion cleifion yn fanwl ac yn dangos bod y gofal a'r driniaeth wedi cael eu cynllunio i hybu diogelwch a llesiant cleifion.

Dangoswyd proses drylwyr ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.

Roedd dogfennaeth a gwybodaeth ar gael yn dangos y defnyddid cyfarpar pelydr-X a diheintio yn ddiogel.

Mae angen cynllun i sicrhau bod lloriau pob un o'r ardaloedd clinigol yn bodloni'r canllawiau cenedlaethol.

Roedd angen archwiliadau mwy rheolaidd o'r trefniadau rheoli heintiau.

Gwnaethom argymhell bod angen gwella'r broses ar gyfer cadw cofnodion o hanes meddygol cleifion.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau ar waith i gadw'r staff a'r bobl sy'n ymweld â'r practis yn ddiogel a gofalu am eu llesiant.

Canfuom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan a bod pob ystafell driniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Ni fynegwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol;

roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo, yn eu barn hwy, fod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis a gwelsom ei fod wedi cael ei wasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf i sicrhau ei fod yn gweithio'n gywir.

Cynhaliwyd profion dyfeisiau cludadwy ar y cyfarpar trydanol yn y practis o fewn y 12 mis diwethaf, i helpu i sicrhau bod defnyddio'r cyfarpar yn ddiogel.

Roedd trefniadau addas ar waith i drosglwyddo gwastraff peryglus (clinigol) yn ddiogel, a gwaredu'r gwastraff hwnnw a wnaed gan y practis. Gwelsom y câi gwastraff peryglus ei storio'n ddiogel wrth aros iddo gael ei gasglu gan y contractwr gwastraff. Roed cyfarpar gwahanu amalgam wedi'i osod, ac felly gellid tynnu gronynnau amalgam (ffurf o lenwad deintyddol sy'n cynnwys mercwri) o lenwadau deintyddol allan o ddŵr gwastraff cyn eu gwaredu'n ddiogel. Câi gwastraff nad oedd yn beryglus (neu wastraff cyffredin) ei gasglu drwy drefniadau â'r cyngor lleol.

Roedd polisi iechyd a diogelwch i'w gael. Gwelsom fod data a gwybodaeth briodol ar y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) ar gael i staff a sylweddau COSHH yn cael eu cadw'n ddiogel.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio benodedig ac roedd yn bodloni'r egwyddorion a amlinellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1)<sup>1</sup> a'r ddogfen ganllaw. Roedd sinc un pwrpas ar gyfer golchi dwylo ar gael yn yr ystafell ddadheintio.

Roedd yr offer dadheintio a'r cypyrddau i'w gweld mewn cyflwr da. Roedd yr arwynebau a'r lloriau yn yr ystafell ddadheintio yn hawdd eu glanhau i helpu â'r gwaith o lanhau'n drylwyr a lleihau achosion o groes-heintio.

---

<sup>1</sup> Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynghylch dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd y practis yn gallu defnyddio pedwar peiriant awtoclaf<sup>2</sup> a gwelsom dystysgrifau archwilio yn dangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom y gwneid gwiriadau dyddiol ac y cedwid llyfr cofnodion, fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, o brofion ar offer glanhau a sterileiddio i ddangos eu bod yn parhau'n ddiogel i'w defnyddio.

Dangoswyd proses ddadheintio drylwyr gan staff a gwelsom dystysgrifau yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau a dadheintio. Roedd gan y practis system dda ar waith a oedd yn galluogi i offer budr a glân gael eu trosglwyddo mewn bocsys wedi'u labelu'n eglur, gan olygu bod y staff yn deall yn glir beth yw'r broses.

Canfuom y cynhaliwyd yr archwiliad diwethaf o drefniadau rheoli heintiau yn 2015, ac atgoffwyd y rheolwr cofrestredig fod angen cynnal rhagor o archwiliadau yn unol â gofynion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i fynd i'r afael â hyn.

Canfuom nad oedd y lloriau yn y rhan fwyaf o'r ystafelloedd triniaeth yn bodloni'r safonau cyfredol a restrir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Er bod y lloriau wedi'u lamineiddio, canfuom fod ganddynt rigolau bach a allai o bosibl atal pobl rhag eu glanhau'n effeithiol.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod archwiliadau rheolaidd o drefniadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal yn unol â gofynion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y llawr ym mhob ardal glinigol yn bodloni'r safonau a nodwyd ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

#### Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau ar gael i'w defnyddio mewn argyfwng claf (llewygu) ac roeddent wedi'u trefnu'n dda ac yn hawdd eu defnyddio. Câi'r

---

<sup>2</sup> Siambr wasgedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio cyfarpar a chyflenwadau drwy'r defnydd o stêm dirlawn dan wasgedd uchel.

cyffuriau a'r cyfarpar eu gwirio yn rheolaidd i sicrhau eu bod o fewn y dyddiad cywir a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod mwyafrif y staff wedi cael hyfforddiant o fewn y 12 mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR). Fodd bynnag, gwelsom fod yr hyfforddiant wedi dyddio ar gyfer un aelod o staff. Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod yr hyfforddiant eisoes wedi cael ei drefnu ar gyfer yr unigolyn yn unol â gweddill y practis yn dilyn yr arolygiad.

### **Diogelu plant ac oedolion mewn perygl**

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith i hybu ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu mewn perygl. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r gweithdrefnau i gynnwys manylion cyswllt y timau diogelu yn y cyngor lleol. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Gwelsom dystysgrifau yn cadarnhau bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion.

#### **Yr hyn y mae angen ei wella**

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisiâu diogelu plant ac oedolion i gynnwys manylion cyswllt y timau diogelu priodol yn y cyngor lleol.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Canfuom fod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn oherwydd bod y ddogfennaeth a'r wybodaeth ofynnol ar ddefnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant yn dangos bod y deintyddion wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio diweddaraf a'u bod yn bodloni canllawiau a nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Er inni weld tystysgrifau ar gyfer rhai aelodau eraill o'r staff clinigol, nid oeddem yn gallu gweld bod yr holl staff clinigol wedi cael yr hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio priodol. Atgoffwyd y rheolwr cofrestredig i sicrhau bod yr holl staff yn cael yr hyfforddiant priodol yn unol â'r canllawiau a nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd lluniau pelydr-X wedi cael eu cwblhau yn rheolaidd fel rhan o'r gwaith monitro sicrwydd ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl â lluniau pelydr-X ac yn nodi lle dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

## Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff clinigol yn cael hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio sy'n gymesur â'u rôl yn unol ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn cynnal nifer o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a thriniaeth a ddarparwyd i gleifion. Roedd y meysydd a archwiliwyd yn cynnwys radiograffau, rheoli gwastraff a chofnodion cleifion. Gwnaethom argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn ystyried gweithredu ystod ehangach a rhaglen fwy strwythuredig o waith archwilio i helpu i nodi meysydd i'w gwella ac i sicrhau y bodlonir canllawiau arfer gorau mewn ystod eang o feysydd. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod ganddynt, fel grŵp o ddeintyddion, adolygiadau a thrafodaethau rheolaidd i helpu i sicrhau bod staff clinigol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch arferion gorau.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Canfuom fod darpariaeth dda i gynnal diogelwch cofnodion cleifion, i helpu i atal mynediad heb awdurdod.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion i asesu ansawdd y cofnodion a gadwyd. Roedd y nodiadau'n fanwl gan mwyaf ac yn dangos bod y gofal a'r driniaeth wedi cael eu cynllunio i hybu llesiant a diogelwch cleifion.

Fodd bynnag, gwnaethom ganfod nad oedd hanesion meddygol cleifion wedi cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson gan y claf a'r deintydd bob tro yr oedd angen hanes meddygol newydd. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i fynd i'r afael â'r mater hwn.



### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod hanesion meddygol cleifion yn cael eu llofnodi a'u dyddio gan y deintydd a'r claf bob tro y mae angen hanes meddygol newydd.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Canfuom fod gan Bractis Deintyddol Bethcar systemau a phrosesau yn eu lle i sicrhau bod y practis a'r staff yn cael eu cefnogi i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Gwelsom fod amrediad o bolisiâu a gweithdrefnau yn eu lle gyda'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Dyweddodd staff wrthym eu bod yn teimlo y cânt eu cefnogi'n dda yn eu swydd a'u bod yn cael y cyfle i gael hyfforddiant priodol i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth.

Roedd angen diweddarau'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion i sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau.

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Mae dau brif ddeintydd yn berchen ar Bractis Deintyddol Bethcar ac fe'u cefnogir gan dîm ehangach o staff clinigol a staff anghlinigol. Un o'r prif ddeintyddion yw'r rheolwr cofrestredig hefyd, ac fe'i cefnogir yn ddyddiol gan reolwr y practis. Canfuom fod tîm y practis yn drefnus ac yn rhagweithiol iawn yn eu dull o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'w cleifion. Disgrifiwyd llinellau atebolrwydd ac adrodd clir gan holl dîm y practis. Lle gwnaethom nodi meysydd i'w gwella, gweithredodd y rheolwr cofrestredig yn brydlon a dangosodd barodrwydd ac ymrwymiad i fynd i'r afael ag unrhyw faterion ac awgrymiadau.

Gwnaethom adolygu datganiad o ddiben y gwasanaeth a'r daflen wybodaeth i gleifion, ac roedd angen diweddarau'r ddau ohonom i sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Nid oedd y datganiad o ddiben yn cynnwys manylion y deintydd diweddaraf a gyflogwyd, ac roedd angen iddo hefyd gynnwys strwythur sefydliadol y practis. Roedd angen i'r daflen wybodaeth i gleifion gael ei diweddarau i gynnwys manylion yr

holl staff, gan gynnwys nyrsys a staff gweinyddol, a gwybodaeth ychwanegol ynghylch y weithdrefn gwyno.

Dyweddodd y staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo y cânt eu cefnogi'n dda yn eu swyddi gan holl aelodau tîm y practis. Gwelsom fod y staff yn glir ac yn wybodus ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu yn y practis yn dda. Gwelsom y cynhaliwyd cyfarfodydd staff yn rheolaidd a bod cofnodion cyfarfodydd yn cael eu llunio a'u rhannu â'r rheini nad oeddent wedi gallu bod yn y cyfarfod. Roedd y practis hefyd wedi cyflwyno llyfryn o ddiweddariadau a sylwadau yn ddiweddar i staff ei ddefnyddio i rannu gwybodaeth ar draws y practis.

Gwelsom fod amrediad cynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau i'w cael gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwelsom fod yr holl bolisiâu wedi cael eu hadolygu a'u dyddio, fel bod yr holl staff yn gwybod bod ganddynt fynediad at y polisi mwyaf cyfredol.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion i sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Rhaid darparu copïau i AGIC.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau perthnasol i'w rôl. Cadarnhaodd staff hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff yn cael arfarniad perfformiad unigol bob blwyddyn ac y câi cynlluniau datblygiad personol eu llunio o ganlyniad i'w harfarniadau.

Gwelsom fod deintyddion a staff nyrsio wedi cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i ymarfer a bod ganddynt yswiriant indemniad yn ei le.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod staff wedi cael eu himiwneiddio rhag hepatitis B i ddiogelu'r cleifion a hwy eu hunain rhag cael yr haint.

Roedd y practis wedi cofrestru ag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod y dystysgrif gofrestru AGIC berthnasol wedi'i harddangos

yn ardal y dderbynfa. Gwelsom dystysgrifau cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff sy'n gweithio yn y practis.

## 4. Beth nesaf?

Lle'r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad o bractis deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle bo gwasanaethau deintyddol preifat yn cael eu darparu, [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydriadau Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2000](#), ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad.			

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol Bethcar

**Dyddiad yr arolygiad:** 30 Ebrill 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw beth yr oedd angen ei wella ar unwaith yn ystod yr arolygiad.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**



## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol Bethcar

**Dyddiad yr arolygiad:** 30 Ebrill 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddangos y prisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat.	Safon lechyd a Gofal 4.2 – Gwybodaeth cleifion Rheoliad 6 (3)	Mae ffioedd preifat yn cael eu harddangos yn y dderbynfa flaen.	R. Morgan	Cyflawnwyd
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y weithdrefn gwyno yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.	Safon lechyd a Gofal 6.3 – Gwrando a dysgu o adborth Rheoliad 21 (4)	Mae manylion AGIC wedi cael eu hychwanegu at ein polisi a'n gweithdrefnau cwyno.	R. Morgan	Cyflawnwyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	(a)			
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod archwiliadau rheolaidd o drefniadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal yn unol â gofynion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.</p> <p>Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y llawr ym mhob ardal glinigol yn bodloni'r safonau a nodwyd ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.</p>	<p>Safon Iechyd a Gofal 2.4 – Atal a rheoli heintiau a dadheintio</p> <p>Rheoliad 16 (1) (a) (b)</p> <p>Rheoliad 22 (2) (a) (c)</p>	<p>Mae rhaglen archwilio flynyddol wedi'i chyflwyno sy'n cynnwys archwiliad gwastraff ac archwiliadau rheoli heintiau a dadheintio.</p> <p>Byd y lloriau yn cael eu newid yn ystod rhaglen o adnewyddu'r ystafelloedd triniaeth.</p>	R. Morgan	<p>Cyflawnwyd</p> <p>Dros y tair blynedd nesaf</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisïau diogelu plant ac oedolion i gynnwys manylion cyswllt y timau diogelu priodol yn y cyngor lleol.</p>	<p>Safon Iechyd a Gofal 2.7 – Diogelu plant ac oedolion mewn perygl</p> <p>Rheoliad 14 (1) (c)</p>	<p>Mae arweinwyr diogelu lleol a phobl allweddol, ynghyd â siart o rifau cyswllt a gweithdrefnau, wedi cael eu hychwanegu at ein ffeil diogelu plant ac oedolion.</p>	R. Morgan	Cyflawnwyd
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff clinigol yn cael hyfforddiant ymbelydredd</p>	<p>2.9 Dyfeisiau, offer a</p>	<p>Bydd yr holl staff yn ymgymryd â hyfforddiant Rheoliadau Ymbelydredd</p>	R. Morgan	Dau fis

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>ïoneiddio sy'n gymesur â'u rôl yn unol ag argymhellion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.</p>	<p>systemau diagnostig meddygol</p> <p>Rheoliad 17 (3) (a)</p>	<p>ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn unol â safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.</p>		
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod hanesion meddygol cleifion yn cael eu llofnodi a'u dyddio gan y deintydd a'r claf bob tro y mae angen hanes meddygol newydd.</p>	<p>Safon Iechyd a Gofal 3.5 – Cadw cofnodion</p> <p>Rheoliad 20 (a) (i) (ii)</p>	<p>Rydym wedi ychwanegu at ein trefn o gadw cofnodion o hanes meddygol digidol trwy gyflwyno hanes meddygol ysgrifenedig a gaiff ei gwblhau gan yr holl gleifion a'i llofnodi gan yr unigolyn a'r deintydd sy'n ei adolygu.</p>	R Morgan	Cyflawnwyd
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion i sicrhau eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Rhaid darparu copïau i AGIC.</p>	<p>Safonau Iechyd a Gofal – Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd</p> <p>Rheoliad 5 (1), Atodlen 1 (5) (6)</p>	<p>Mae'r ddau wedi cael eu diweddarau a'u huwchlwytho i'n gwefan fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.</p>	R. Morgan	Cyflawnwyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Rheoliad 6 (1), Atodlen 2 (1) (b) (f)			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras): Rhys Morgan**

**Swydd: Prif ddeintydd**

**Dyddiad: 14 Mehefin 2018**